

# npower in the community



How Pembroke Power Station will look

## Pembroke Power Station One Year On


It is a year since we officially 'broke the ground' at our site near Pembroke and began the construction of the new power station. One year on, the project is progressing well and the buildings that will house the power station's five units are quickly rising out of the ground.

The erection of the steelwork that forms the frames for the main turbine buildings is well underway with the first four units' main structures almost complete and the final fifth unit already taking shape. The cladding that provides the outer covering of the buildings is also in the process of being installed. The reinforced foundations for all five of the units have been constructed, using around 30,000 cubic metres of concrete.

The first phase of dredging work to clear the approach channel in Pennar Gut to the power station's existing jetty was

completed during April and this has enabled delivery of major plant components via the Port of Pembroke to commence. Utilising the Milford Haven waterway for these large and heavy load deliveries is extremely important as it minimises the disruption on local roads.

Over the coming months, work will include installation of the five steam boilers and progressing the installation of the turbines and generators in all five turbine halls. Construction of the control and administration building and workshop has begun and, following completion of its



### Contents

- 01 One Year On
- 02 A Look at the Site
- 03 Meet the Team
- 04 Local Liaison Committee Update
- 04 Supporting the Community

### News Flash

At the beginning of April, we reached another important milestone when the gas pipeline which will transport the natural gas fuel to our site was successfully pulled through the hole drilled under the Milford Haven waterway.

The gas pipeline runs for 3 kilometres across the waterway and has been drilled approximately thirty metres under the seabed to prevent any disruption to the environmentally sensitive waterway.

Work is now underway to lay the remainder of the pipeline which will connect to the National Grid's National Gas Transmission system at an above-ground, secure compound near Waterston.

(See page 3 for a further update.)

building, installation of the water treatment plant equipment will begin.

For a closer look at the power station's layout, please see page 2.

# A Look at the Site



## Key

- 1** The former power station's basement
- 2** Cooling water intake pumphouse
- 3** Cooling water intake pipes
- 4** Jetty used for delivery of heavy goods
- 5** Contractors' locker and mess rooms
- 6** National grid sub-station which will distribute electricity generated by the power station
- 7** Canteen for all site workers
- 8** Security gate house and police cabin
- 9** Site offices for RWE npower and Alstom project teams
- 10** Medical centre
- 11** Location of the transformers
- 12** Three of the power station's five units, housing the turbines and generators
- 13** Concrete batching plant
- 14** Equipment storage area
- 15** Steam boiler
- 16** Admin & control building and workshops
- 17** Water treatment plant

# Transporting Heavy Loads to the Site

As the construction of the power station's five units progresses, we are taking delivery of the large components, such as gas turbines, transformers, generators and boilers, that will be installed in them and used to operate the plant.

Because of the size and weight of this equipment, it needs to be transported very carefully by a specialist company to ensure it arrives at the site safely. Thanks to our site's location on the Milford Haven waterway, we are able to transport the heaviest and largest international shipments by sea, meaning we can minimise disruption to local motorists and residents by keeping them off the roads.

As the barges carrying the components arrive at the site, they are off-loaded at our heavy loads jetty. To facilitate this, a large crane, capable of lifting the 370-tonne gas turbines has been installed at the jetty, where it will remain in place for around

12 months until all the large equipment has been delivered to the site. Loads delivered from within the UK are transported by road.

The first loads arrived at the site during April and deliveries are expected to continue until late Spring 2011.



Heavy load delivery

# Meet the Team

Andreas Renkes,  
RWE npower  
Construction Manager

## What does the job of Construction Manager encompass?

As Construction Manager, I oversee the construction of our new power stations. At the moment, that means I'm looking after two sites: at Staythorpe in Nottinghamshire and here at Pembroke.

I work closely with our Site Manager to ensure that the construction project runs smoothly and to schedule. There are a lot of different contractors and people involved in a construction project of this size and pulling the different elements together is like a giant jigsaw puzzle so it's vital that the process is well managed.

## Where did you work before you joined the Pembroke project?

I have worked for RWE npower for over 4 years and, before joining the Pembroke team I was the Site Manager at Staythorpe, where we are constructing another new CCGT gas-fired power station. The construction of Staythorpe Power Station began in 2007 and is nearing completion so I'm able to bring my experience of that project to Pembroke.

## What are the next milestones in the construction of the power station?

We are around one-third of the way through the project and are pleased with the progress that our main contractor Alstom has made to date. The main power station buildings are under construction and, as you can see from the photo on page 2, the site is really taking shape.

We have recently begun taking delivery of the very large power station components to the site, including the gas turbines, and their arrival is an important milestone for us. Our site's location on the Milford



Haven waterway enables us to bring the loads in by sea which is a real benefit.

The completion of the new gas pipeline later this year will be crucially important for us. The pipeline is a vital element of the project as it will enable us to supply the natural gas fuel to the power station.

## How long will it take to build the new power station?

The construction of the power station will take around three years and we expect it to be fully operational by late 2012.

# One Year On

As the construction of Pembroke Power Station progresses, the number of contractors working at the site is increasing. However, a number of companies have been involved from day one and are still here one year on.

## Nemo Electrical

Nemo, an electrical contracting company based in Maidenwells, was one of the first companies to start work on-site, establishing power to the first site cabins.

The 20 Nemo employees currently involved in the construction project are responsible for maintaining the temporary power supplies at the site which allow everyone to carry out their work. From the site lighting to the welding equipment, if it's got a cable attached to it, Nemo ensures it has power and operates safely.

Nemo's Managing Director, Neil Morgan, hopes that the company will remain involved throughout the construction phase, securing the jobs of its employees who all live within 10 miles of the site.

## Woodenbale 2000

Pembroke construction company Woodenbale 2000 began working on the power station in March 2009 and now employs over 20 people at the site.

A civil engineering contractor, Woodenbale has so far been involved in the construction of the car parks, welfare areas and water mains and Managing Director Nigel Lewis is keen to stay for as long as possible.

During a difficult economic period, the work at the power station has come at the right time for Woodenbale and its Pembroke based workforce.

# Pipeline Update

The new gas pipeline which will transport the natural gas fuel to the power station is now one continuous pipe. Almost 4.5km of pipe work has been installed to link the power station to the National Transmission System (NTS) on the opposite side of the Milford Haven waterway.

After the successful completion of the drilling in Spring 2010 deep below the Milford Haven waterway, a further approximately 1.5km of pipe work has since been installed across a terrain of roads, woodland and farmland.

Work is now concentrated on the two ends of the pipeline to ensure a smooth connection into the NTS at one end and the power station at the other.



## Recruitment Campaign Underway

In March, we launched our campaign to recruit the team of people who will operate the power station with a recruitment event held in Pembroke Dock.

The event was a real success and we were delighted that around 400 people took the opportunity to meet the power station management team and discuss the skills and experience we will require.

The recruitment process is now well underway and assessment centres were held recently for a number of the management positions such as Shift Team

Leaders and Section Heads. In the coming weeks we will be inviting applications for more of the jobs available. Information about all the vacancies is available via:

- the Jobcentre Plus network
- adverts in the local newspapers
- our careers website: [www.npowerjobs.com](http://www.npowerjobs.com)

Between 80 and 90 high quality, long-term operations and maintenance positions will be created at the power station including:

- electrical and mechanical engineers
- control and instrumentation
- assistant engineers
- technicians
- shift team leaders
- shift technicians
- business support (finance, administration and stores).



To keep up to date with all the latest information about the opportunities on offer and for details of how to apply, please visit our dedicated careers website: [www.npowerjobs.com](http://www.npowerjobs.com)

## Supporting the Local Community

Through our Community Fund, we aim to provide support for local groups and events that bring a benefit to the community and last year we provided support worth more than £17,000 to a range of local projects including groups and events relating to sport, education and local tourism.

Over the last few months, we're delighted to have been able to support the following groups:

- Angle RNLI: a new flatscreen TV which will be used to help with training and to give educational presentations to visiting groups
- Pembroke Old People's Welfare Committee: £250 to facilitate a coach trip for its members
- Pembrokeshire Velo Cycling Club: £250 towards an indoor training bike
- Welsh Sailing Venture: £1000 to purchase equipment that will enable people with disabilities and their carers to participate in sailing.

## Local Liaison Committee Update

The Pembroke Power Station Local Liaison Committee (LLC) held its quarterly meeting in early April.

The key points raised and discussed at the meeting included:

- an update on the power station's construction presented by Rob Jordan, Alstom's Site Manager
- an update on the progress of the South Haven Gas Pipeline
- we have received some complaints about noise generated by the dredging work. Information about noise levels measured during the dredging was provided by Andy Smith, RWE npower's Project Development Manager
- an update on progress in recruitment of the permanent operations and maintenance team
- an update on the road improvements being carried out by Pembrokeshire County Council provided by Phil Leggett, PCC Highways Department
- a review of complaints received from residents about HGVs travelling on local roads.

## News Flash

During May and June, students at Pembroke School and Milford Haven School took part in npower's enthuse programme.

The npower enthuse programme forms part of our national education programme and aims to inspire and engage students aged 13-14 years old in science, technology, engineering and maths.



## Contact us

Throughout the process of developing a new power station at our site near Pembroke, RWE npower is committed to keeping local people informed and taking their opinions into consideration.

If you have any questions, concerns or comments, or if there is anything else that you would like us to be aware of then please contact us.

Email: [pembroke@rwenpower.com](mailto:pembroke@rwenpower.com)

By post: Freepost RRGK-AZTG-JLJX,

Camargue (RWE npower), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

By phone: leave a message on the Pembroke information line on **0845 136 0102** and we will respond as quickly as possible.

[www.rwenpower.com/pembroke](http://www.rwenpower.com/pembroke)

# npower yn y gymuned



Sut fydd Gorsaf Pŵer Penfro'n edrych

## Gorsaf Bŵer Penfro Blwyddyn yn Ddiweddarach


Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni 'dorri'r tir' yn swyddogol ar ein safle ger Penfro a dechrau adeiladu'r orsaf bŵer newydd. Blwyddyn yn ddiweddarach, mae'r prosiect yn datblygu'n dda ac mae'r adeiladau fydd yn gartref i bum uned yr orsaf bŵer yn codi'n gyflym.

Mae adeiladu'r gwaith dur sy'n ffurfio'r fframiau ar gyfer adeilad y prif dyrbin wedi dechrau ac mae strwythurau'r pedair prif uned bron wedi eu cwblhau a'r pumed, a'r olaf, yn dechrau siapio. Mae'r cladin sy'n gorchuddio'r tu allan i'r adeiladau hefyd yn cael ei osod. Mae'r sylfeini cyfnerth ar gyfer y pum uned wedi cael eu hadeiladu, yn defnyddio tua 30,000 metr ciwbig o goncrit.

Cafodd cam cyntaf y gwaith carthu i gliro'r sianel o Pennar Gut i lanfa bresennol yr orsaf bŵer ei gwblhau yn ystod mis Ebrill

ac mae hyn wedi caniatáu i ni ddechrau cludo prif gydrannau'r gwaith trwy gyfrwng Porth Penfro. Mae defnyddio dyfrffordd Aberdaugleddau ar gyfer cludo'r nwyddau mawr, trwm hyn yn hollbwysig am ei fod yn golygu llai o amharu ar ffyrdd lleol.

Dros y misoedd i ddod, bydd gwaith yn cynnwys gosod y pum boeler stem a gosod y tyrbinau a generaduron yn y pum neuadd tyrbîn. Mae'r gwaith o adeiladu'r adeilad rheoli a gweinyddu a'r gweithdai wedi dechrau ac, ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen, bydd y gwaith o osod offer y gwaith trin



### Cynnwys

- 01 Blwyddyn yn Ddiweddarach
- 02 Golwg ar y Safle
- 03 Cwrdd â'r Tîm
- 04 Newyddion Diweddaraf y Pwyllgor Cyswllt Lleol
- 04 Cefnogi'r Gymuned

### Newyddion

Daethom at garreg filltir bwysig arall dechrau mis Ebrill pan gafodd y bibell nwy fydd yn trawsgludo tanwydd nwy naturiol i'n safle ei thynnu'n llwyddiannus trwy'r twll a gafodd ei ddrilio o dan ddyfrffordd Aberdaugleddau.

Mae'r bibell nwy'n rhedeg am 3 cilometr o dan y ddyfrffordd ac mae wedi ei drilio rhyw drideg metr o dan wely'r môr er mwyn rhwystro tarfu ar y ddyfrffordd amgylcheddol sensitif.

Mae'r gwaith o osod gweddill y bibell fydd yn cysylltu gyda system trawsgludo nwy naturiol y Grid Cenedlaethol eisoes wedi dechrau ar safle uwch y ddaear, diogel ger Waterston.

(Gweler tudalen 3 am fwy o newyddion.)

dŵr gwastraff yn dechrau.

Am olwg agosach ar gynllun yr orsaf bŵer, gweler tudalen 2.

# Golwg ar y Safle



## Allwedd

- 1 Llawr isaf yr hen orsaf bŵer
- 2 Tŷ pwmpio tynnu dŵr oeri
- 3 Pibelli tynnu dŵr oeri
- 4 Glanfa a ddefnyddir i gludo nwyddau trwm
- 5 Ystafelloedd bwyta a loceri'r adeiladwyr
- 6 Is-orsaf Grid Cenedlaethol fydd yn dosbarthu trydan a gynhyrchir gan yr orsaf bŵer
- 7 Ffreutur ar gyfer holl weithwyr y safle
- 8 Porthdy diogelwch a chaban heddlu
- 9 Swyddfeydd safle ar gyfer timau prosiect RWE npower ac Alstom
- 10 Canolfan feddygol
- 11 Lleoliad y newidwyr
- 12 3 o 5 uned yr orsaf bŵer ble mae'r tyrbinau a'r generaduron yn cael eu cadw
- 13 Gwaith sypynnu concret
- 14 Ardal storio offer
- 15 Boeler Stem
- 16 Adeilad gweinyddu a rheoli a gweithdai
- 17 Gwaith trin dŵr gwastraff

# Cludo Llwythi Trwm i'r Safle

Wrth i'r gwaith o adeiladu pum uned yr orsaf bŵer fynd yn ei flaen rydym wrthi'n derbyn y cydrannau mawr, fel tyrbinau nwy, newidyddion, generaduron a boeleri, fydd yn cael eu gosod ynddynt a'u defnyddio i weithredu'r gwaith.

Oherwydd maint a phwysau'r offer hwn, rhaid iddo gael ei gludo'n ofalus iawn gan gwmni arbenigol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safle'n ddiogel. Diolch i leoliad y safle ger dyfrffordd Aberdaugleddau, rydym yn gallu cludo'r llwythi rhyngwladol mwyaf ar y môr, sy'n golygu llai o amharu ar fodurwyr a phreswylwyr lleol trwy eu cadw oddi ar y ffyrdd.

Wrth i'r llongau sy'n cludo'r cydrannau gyrraedd y safle, maent yn cael eu dadlwytho ar ein glanfa llwythi trwm.

Er mwyn hwyluso hyn, mae craen mawr, sy'n gallu codi'r tyrbinau nwy 370-tunnell wedi ei osod ar y lanfa, a bydd yn aros yno am ryw flwyddyn hyd nes bydd yr holl offer mawr

wedi ei gludo i'r safle. Mae llwythi sy'n cael eu cludo o'r DU yn cael eu cludo ar y ffyrdd.

Cyrhaeddodd y llwythi cyntaf y safle yn ystod mis Ebrill a disgwyli'r gwaith cludo barhau hyd nes yn hwyr yn y gwanwyn yn 2011.



Cludo llwythi trwm

## Cwrdd â'r tîm

Andreas Renkes,  
Rheolwr Adeiladu  
RWE npower

### Beth mae swydd Rheolwr Adeiladu'n ei olygu?

Fel Rheolwr Adeiladu, rwy'n goruchwyllo adeiladu'n gorsafoedd pŵer newydd. Ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu edrych ar ôl dau safle: Staythorpe yn Swydd Nottingham ac yma ym Mhenfro.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'n Rheolwr Safle i sicrhau bod y prosiect adeiladu'n rhedeg yn iawn ac ar amser. Mae yna lawer o wahanol adeiladwyr a phobl sy'n rhan o brosiect adeiladu o'r maint hwn ac mae tynnu'r gwahanol elfennau at ei gilydd fel jig-so anferth felly mae'n hollbwysig bod y broses yn cael ei rheoli'n dda.

### Ble oeddech chi'n gweithio cyn i chi ymuno a phrosiect Penfro?

Rwyf wedi gweithio i RWE npower am dros 4 blynedd a, cyn ymuno gyda thîm Penfro roeddwn yn Rheolwr Safle yn Staythorpe, ble rydym yn adeiladu gorsaf bŵer newydd arall wedi ei thanio gan Dyrbinau Nwy Cylch Cyfun. Dechreuodd y gwaith o adeiladu Gorsaf Bŵer Staythorpe yn 2007 ac mae'n agosáu at ei gwblhau felly rwy'n gallu dod a'm profiad o'r prosiect hwnnw i Benfro.

### Beth yw'r cerrig milltir nesaf yng nghyfnod adeiladu'r orsaf bŵer?

Rydym tua un rhan o dair trwy'r prosiect ac rydym yn falch gyda'r datblygiad mae ein prif adeiladwr Alstom wedi ei wneud hyd yn hyn. Mae adeiladau'r brif orsaf bŵer yn cael eu hadeiladu ac, fel y gwelwch o'r llun ar dudalen 2, mae'r safle'n siapio.

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau cludo cydrannau mawr iawn yr orsaf bŵer i'r safle, yn cynnwys y tyrbinau nwy, ac mae eu dyfodiad yn garreg filltir bwysig i ni. Mae ein safle ar ddyfrffordd Aberdaugleddau yn ein galluogi ni i ddod a llwythi ar y môr.



Bydd cwblhau'r bibell nwy newydd yn ddiweddarach eleni yn bwysig iawn i ni.

Mae'r bibell yn elfen hanfodol o'r prosiect gan y bydd yn ein galluogi ni i gyflenwi'r tanwydd nwy naturiol i'r orsaf bŵer.

### Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i adeiladu'r orsaf bŵer newydd?

Bydd adeiladu'r orsaf bŵer yn cymryd rhyw dair blynedd ac rydym yn disgwyl iddi fod yn gweithredu'n llawn erbyn yn hwyr yn 2012.

## Blwyddyn yn Ddiweddarach

Wrth i adeiladu Gorsaf Bŵer Penfro fynd yn ei flaen, mae'r nifer o adeiladwyr sy'n gweithio ar y safle yn cynyddu. Fodd bynnag, mae nifer o gwmnïau wedi bod yn rhan o'r gwaith o'r diwrnod cyntaf ac maent yn dal yma flwyddyn yn ddiweddarach.

### Nemo Electrical

Nemo, cwmni cytundebu trydanol o Maidenwells, oedd un o'r cwmnïau cyntaf i ddechrau gwaith ar y safle, yn darparu pŵer i'r cabanau cyntaf ar y safle.

Mae'r 20 o weithwyr Nemo sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r prosiect adeiladu yn gyfrifol am gynnal y cyflenwadau pŵer dros dro ar y safle sy'n galluogi pawb i wneud eu gwaith. O oleuadau'r safle i'r offer weldio, os yw wedi ei gysylltu gyda chebl, mae Nemo'n sicrhau bod ganddo bŵer a'i fod yn gweithredu'n ddiogel.

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr Nemo, Neil Morgan, yn gobeithio bydd y cwmni'n parhau i chwarae rhan trwy gydol y cyfnod adeiladu, yn sicrhau swyddi i'w gweithwyr, pob un ohonynt yn byw o fewn 10 milltir i'r safle.

### Woodenbale 2000

Dechreuodd cwmni adeiladu Woodenbale 2000 o Benfro weithio ar yr orsaf bŵer ym mis Mawrth 2009 a bellach mae'n cyflogi dros 20 o bobl ar y safle.

Contractwr peirianeg sifil yw Woodenbale a hyd yn hyn mae wedi bod yn rhan o adeiladu'r meysydd parcio, ardaloedd llesiant a'r prif gyflenwad dŵr ac mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Nigel Lewis yn awyddus i aros mor hir â phosib.

Yn ystod cyfnod economaidd anodd, mae'r gwaith ar yr orsaf bŵer wedi dod ar yr amser iawn i Woodenbale a'i weithlu ym Mhenfro.

## Newyddion Diweddaraf am y Bibell Nwy

Mae'r bibell nwy newydd fydd yn trawsgludo'r tanwydd nwy naturiol i'r orsaf bŵer bellach yn un bibell ddi-dor. Mae bron i 4.5 cilometr o bibell wedi ei gosod i gysylltu'r orsaf bŵer gyda'r System Drawsyrru Genedlaethol (NTS) ar ochr arall dyfrffordd Aberdaugleddau.

Ar ôl cwblhau'r drilio 3 cilometr yn ddwfn o dan ddyfrffordd Aberdaugleddau'n llwyddiannus yng ngwanwyn 2010, mae tua 1.5 cilometr o bibell wedi ei gosod ar draws tirwedd o ffyrdd, coedwigoedd a thir fferm.

Bellach rydym yn canolbwyntio ar y gwaith ar ddau ben y bibell i sicrhau cysylltiad llyfn gyda'r NTS ar un pen a'r orsaf bŵer ar y pen arall. Gweler tudalen 3 am fwy o newyddion.



## Ymgyrch Recriwtio wedi Dechrau

Ym mis Mawrth, lanswyd ein hymgyrch i recriwtio'r tîm o bobl fydd yn gweithredu'r orsaf bŵer gyda digwyddiad recriwtio a gynhaliwyd yn Noc Penfro.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr ac roeddem wrth ein boddau bod tua 400 o bobl wedi cymryd y cyfle i gwrdd â thîm rheoli'r orsaf bŵer a thrafod y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnom.

Mae'r broses recriwtio wedi dechrau o ddifrif bellach a chynhaliwyd canolfannau asesu'n ddiweddar ar gyfer nifer o swyddi rheoli fel Arweinyddion Sifft Tîm a

Phenaethiaid Adranau. Yn yr wythnosau i ddod byddwn yn gwahodd ceisiadau am fwy o'r swyddi sydd ar gael. Mae gwybodaeth am y swyddi gwag ar gael trwy gyfrwng:

- rhwydwaith Canolfan Byd Gwaith;
- hysbysebion yn y papurau newydd lleol;
- ein gwefan gyrfaoedd: [www.npowerjobs.com](http://www.npowerjobs.com)

Bydd rhwng 80 a 90 o swyddi gweithredu a chynnal a chadw hirdymor o ansawdd uchel yn cael eu creu yn yr orsaf bŵer yn cynnwys:

- peirianwyr trydanol a mecanyddol
- rheoli ac offeryniaeth
- peirianwyr cynorthwyol
- technegwyr
- arweinyddion sifft tîm
- technegwyr sifft
- cymorth busnes (cyllid, gweinyddu a storio).



I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd sydd ar gael ac am fanylion am sut i ymgeisio, ewch i'n gwefan gyrfaoedd pwrpasol: [www.npowerjobs.com](http://www.npowerjobs.com)

## Cefnogi'r Gymuned Leol

Trwy ein Cronfa Gymunedol, rydym yn anelu i roi cymorth i grwpiau a digwyddiadau lleol sy'n dod a budd i'r gymuned a llynedd cyfrannwyd dros £17,000 gennym i amrywiaeth o brosiectau lleol yn cynnwys grwpiau a digwyddiadau'n ymwneud a chwaraeon, addysg a thwristiaeth leol.

Dros y misoedd diwethaf, mae'n bleser gennym fod wedi gallu helpu'r grwpiau canlynol:

- Angle RNLI: teledu sgrin gwastad newydd fydd yn cael ei ddefnyddio gyda hyfforddiant ac i roi cyflwyniadau addysgol i grwpiau sy'n ymweld
- Pwyllgor Lles Pobl Hŷn Penfro: £250 i hwyluso taith fws i'r aelodau
- Clwb Beicio Velo Sir Benfro: £250 tuag at feic hyfforddi dan do
- Menter Hwyllo Cymru: £1000 i brynu offer fydd yn galluogi pobl ag anabledau a'u gofaluwr i gymryd rhan mewn hwyllo.

## Newyddion

Yn ystod Mai a Mehefin, cymerodd myfyrwyr o Ysgol Penfro ac Ysgol Aberdaugleddau ran yn rhaglen 'enthuse' npower.

Mae rhaglen 'enthuse' npower yn ffurfio rhan o'n rhaglen addysg genedlaethol ac yn anelu i ysbrydoli ac ymrwymo myfyrwyr 13-14 oed mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.



## Newyddion Diweddaraf y Pwyllgor Cyswllt Lleol

Cynhaliodd Pwyllgor Cyswllt Lleol Gorsaf Bŵer Penfro (PCLI) ei gyfarfod chwarterol yn gynnar ym mis Ebrill.

- Ymysg y prif bwyntiau a godwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod roedd:
- y newyddion diweddaraf ar adeiladu'r orsaf bŵer wedi ei gyflwyno gan Rob Jordan, Rheolwr Safle Alstom
  - y newyddion diweddaraf ar ddatblygiad Pibell Nwy De Aberdaugleddau
  - rydym wedi derbyn rhywfaint o gwynion ynglŷn â sŵn sy'n cael ei greu gan y gwaith carthu. Cafwyd gwybodaeth am lefelau sŵn a fesurwyd yn ystod y gwaith carthu gan Andy Smith, Rheolwr Datblygu Prosiect RWE npower
  - y diweddaraf ar recriwtio'r tîm gweithredu a chynnal a chadw parhaol
  - y newyddion diweddaraf gan Phil Leggett, Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Benfro ar welliannau ffyrdd sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor
  - adolygiad o gwynion a dderbyniwyd gan breswylwyr ynglŷn â loriau HGV yn teithio ar ffyrdd lleol.

## Cysylltu â ni

Trwy gydol y broses o ddatblygu gorsaf bŵer newydd ar ein safle ger Penfro, mae RWE npower yn ymrwymedig i adael i bobl leol wybod beth sy'n digwydd ac ystyried eu barn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu sylwadau, neu os oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohono yna cysylltwch â ni.

E-bost: [pembroke@rwenpower.com](mailto:pembroke@rwenpower.com)

Trwy'r post: Rhadbost RRG-AZTG-JLJX,

Camargue (RWE npower), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

Ar y ffôn: gadewch neges ar linell wybodaeth Penfro ar **0845 136 0102** ac fe wnawn ymateb cyn gynted â phosib.

[www.rwenpower.com/pembroke](http://www.rwenpower.com/pembroke)